

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Symud ymlaen o'ch Canolfan Groeso, eich gwesty neu eich parc gwyliau

## Gwybodaeth i Wcreiniaid sydd ag anifeiliaid anwes

**Cewch gymorth i symud i gartref mwy hirdymor gan y bydd pob llety cychwynnol yn cael ei gau eleni.**

**Rhaid ichi weithio gyda'ch awdurdod lleol i'w helpu i ddod o hyd i'r cartref gorau sydd ar gael ichi i'w rentu neu gartref gyda lletywr sy'n addas i anifeiliaid.**

- Cofiwch fod y galw am dai yn uchel, yn enwedig mewn dinasoedd. Mae dod o hyd i lety addas i anifeiliaid anwes hyd yn oed yn fwy heriol. Dylech dderbyn eich cynnig cyntaf os gallwch.
- Efallai y byddai'n ddefnyddiol darparu gwybodaeth am eich anifail anwes, fel manylion am frîd yr anifail, ei faint, ei ymddygiad a'i gofnodion brechu.
- Ystyriwch gynnig cyflwyno eich anifail anwes i landlord posibl.
- Bydd eich cartref newydd yn diwallu anghenion llety eich teulu, gan gynnwys eich anifail anwes. Efallai y bydd mewn ardal wahanol, ond bydd pob gwasanaeth ar gael ichi.
- Peidiwch byth â cheisio cadw anifail anwes mewn eiddo heb ganiatâd y landlord. Gallai hyn arwain at derfynu eich tenantiaeth.
- Bydd byw mewn llety sy'n addas i anifeiliaid anwes yn fwy fforddiadwy i chi. Mae cost llety cŵn a llety cathod yn uchel ac efallai na fyddwch yn cael llawer.

WG48806